BRITISH COUNCIL Cymru

**Swydd Ddisgrifiad**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y Swydd | **Athrawon/Tiwtoriaid y Gymraeg ym Mhatagonia** | | |
| Lleoliad y Swydd | Patagonia | Lwfans | £750 y mis |
| Yn Atebol i | Y Cydlynydd Dysgu | Cyfnod y Swydd | Mawrth 2023 – Rhagfyr 2023 |
| Dyddiad Cau | 17.00 Mercher 14 Rhagfyr 2022 | | |

**Nod y Swydd**

- I ddysgu Cymraeg i amryw o oedrannau a lefelau yn y cymunedau
- I annog dysgwyr i ymuno â'r dosbarthiadau ar ôl dwy flynedd o amhariaeth Cofid
- I gydweithio gyda thiwtoriaid ac athrawon lleol i greu arfer dda post - Cofid
- I gydweithio gyda'r cymunedau i adfer yr arferion da o gynnal gweithgareddau cymdeithasol yn yr iaith Gymraeg

**Cyd-destun y Swydd**

Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut yn cynnig cyfle unigryw i unigolion cymwys ddysgu a datblygu'r Cymraeg yn Nhalaith Chubut, Patagonia.

Dylai'r rhai a benodir fod yn hyddysg ym maes dysgu Cymraeg i oedolion neu ym maes addysg feithrin/gynradd. Bydd y rhain yn swyddi datblygu. Ceisiwn unigolion a fydd yn barod i gydweithio a chynghori'r tiwtoriaid lleol a phwyllgorau lleol y dosbarthiadau Cymraeg a threfnu a chydlynu gweithgareddau cymdeithasoli iaith.

Bydd dwy swydd yn cael eu cynnig yn Nyffryn Camwy (Ardal Trelew a'r Gaiman) ac un swydd yn cael ei chynnig yn yr Andes (Ardal Esquel a Threvelin) yn dysgu naill ai plant, oedolion neu'r ddau. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn seiliedig ar argymhellion Adroddiad Blynyddol Cynllun yr Iaith Gymraeg. Hefyd yn ystod y pandemig roedd diddordeb mawr o tu allan i'r dalaith i ddysgu Cymraef felly mae'r gallu i ddysgu arlein yn fantais.

**Prif Dasgau a Chyfrifoldebau**

| | |
|---|---|
| 1 | I hyrwyddo a datblygu addysg Gymraeg i blant a/neu addysg i oedolion |
| 2 | Cyfrannu at ddatblygu cwricwlwm priodol ar gyfer y cyd-destun lleol trwy gydweithio gydag athrawon lleol a rhannu arfer dda Cymru gyda nhw. |
| 3 | I hybu'r Gymraeg o fewn y gymuned ym mhob ffordd: trwy weithio yn yr ystafell ddosbarth, trwy fod yn rhan o'r gymuned, trwy fod yn weithgar yn y gymdeithas Gymreig. |

| | |
|---|---|
| 4 | Technoleg: Gweithio gyda't cyfryngau cymdeithasol i rannu gweithgarwch y Wladfa ar dudalen Menter Patagonia ayyb. Rhannu deunyddiau a sesiynau arlein. |
| 5 | I fod yn barod i gynorthwyo pan ddaw gwirfoddolwyr, grwpiau o ymwelwyr fel criw yr Urdd a phobl sydd wedi ennill ysgoloriaethau. |
| 6 | Darparu adborth i'r Cydlynydd yn gyson ac i'r Cyngor Prydeinig yn chwarterol ar ffurf adroddiad. |
| 7 | Bod yn gefn i ddysgwyr ac athrawon lleol trwy eu hannog a'u meithrin. |

**Cysylltiadau Allweddol**

Mewnol
- Athrawon eraill o Gymru ym Mhatagonia
- Athrawon a thiwtoriaid o Batagonia yn y Wladfa
- Y Cydlynydd Dysgu
- Swyddog Prosiect British Council Cymru

Allanol
- Dysgwyr
- Pwyllgorau Lleol
- Penaethiaid Ysgolion Cynradd
- Rhieni

**Amodau**

- Cytundeb 9 1/2 mis yn dechrau ar 1 Mawrth 2023 hyd 15 Rhagfyr 2023
- Hediad o'r Deyrnas Unedig i'r Ariannin ac yna'n ôl i'r Deyrnas Unedig ar ddiwedd cyfnod y cytundeb.
- 2.5 diwrnod y mis (yn ddibynnol ar ddyddiad dechreuad y cytundeb)
- Llety di-dâl wedi ei drefnu gan y cymunedau lleol.
- Lwfans misol o £750 sy'n cynnwys costau teithio lleol.
- Yswiriant meddygol.
- Lwfans adnewyddu fisa.
- Lwfans cyrraedd o £150 a lwfans dychwelyd o £150

**Bydd angen gwiriad DBS ar bob Swyddog a gyflogir**

**Manyldeb Personol**

| | Hanfodol | Dymunol | Asesu |
|---|---|---|---|
| **Ymddygiadau** | Parodrwydd, gallu, brwdfrydedd ac awydd i gyfrannu i lwyddiant addysg Gymraeg a'r gweithgareddau cymdeithasoli iaith ym Mhatagonia | | Cyfweliad |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Sgiliau technoleg gwybodaeth: y gallu i baratoi deunyddiau digidol, defnyddio platfformau addysgu, gallu defnyddio Zoom/Meet i ddysgu gwersi arlein, gallu hysbysebu gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol | | Cyfweliad |
| **Profiad** | Profiad o ddysgu'r Gymraeg, fel ail iaith neu iaith gyntaf i blant, pobl ifanc a/neu yn y sector Cymraeg i Oedolion<br><br>Profiad o allu dysgu cyrsiau Cymraeg i Oedolion gyda'r cyrsiau a ddefnyddir yn Nghymru: Mynediad y Wladfa, Sylfaen, Canolradd ac Uwch 1 a 2 | Profiad o waith cymdeithasoli iaith e.e. Mentrau Iaith neu weithgareddau cymunedol | Rhestr Fer a chyfweliad |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau dysgu priodol | Gradd | Rhestr Fer |